

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/06/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

John Brinley Jones (Cad)	David Andrew Parry	Alan Harper-Smith	Greta Hughes
William Penri Jones	Ian Goronwy Williams	Thomas Victor Jones	Alaw Ceris
William Roger Jones	Ann Llwyd (Cyfieithydd)	Pat Humphreys (Clerc)	

## **Mae'r Cyfarfod heno yn cael ei gynnal dros y we gyda meddalwedd Zoom yn unol â chyfarwyddiadau COVID-19**

Gofynnodd y cadeirydd i bawb pan nad ydynt yn siarad i roi eu hunain ar 'mute' gan ei fod yn amharu ar y cyfieithydd a phan fydd rhywun eisiau cyfrannu yna iddynt roi eu llawn i fyny a pan fydd angen pleidleisio i bawb wneud drwy ddangos llaw.

### **1. Ymddiheuriadau**

Gwenllian Hughes & Claire Russell-Griffiths

### **2. Datgan Buddiant Ariannol neu Personol**

John Brinley Jones – cais cynllunio Ty Capel Seion, Llanbedrog.

### **10. Sedd Wag**

Derbyniwyd cais yn datgan diddordeb yn y sedd wag sef Alaw Ceris.

Penderfyniad: Pasiwyd yn unfrydol i dderbyn Alaw Ceris fel aelod o Cyngor Cymuned Llanbedrog.

Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: Thomas Victor Jones

Ymunodd Alaw Ceris hefo'r cyfarfod a croesawodd y cadeirydd hi fel aelod o Cyngor Cymuned Llanbedrog.

### **3. Cofnodion Pwyllgor 31/05/2021**

Mae'r clerc wedi ysgrifennu enw Andrew Parry yn anghywir ac am ei gywiro.

Derbyniwyd y cofnodion yn gywir.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Andrew Parry

### **4. Unrhyw Fater Brys**

#### **Problem parcio dros nos.**

Derbyniwyd ebost gan Cyngor Cymuned Pistyll yn gofyn am gefnogaeth Cyngorau Cymuned/Tref i'w cais i'r Cyngor Sir i sortio'r broblem 'campervans' yn parcio dros nos ym maes parcio Nant Gwrtheyrn yn Llithfaen. Maent yn anwybyddu'r arwyddion 'dim parcio dros nos' ac yn gadael sbwriel ar y safle sy'n cynnwys sbwriel sy'n dod o'u lle chwech. Mae hyn yn broblem yn ardal Llanbedrog hefyd sef yn Carreg y Defaid, maes parcio Ty'n Tywyn a maes parcio Glan y Môr Llanbedrog a gan fod mwy a mwy o bobol yn prynu 'campervans' mae'r broblem yn mynd i gynyddu. Mynegodd Greta Hughes bod angen i'r Llywodraeth ddelio hefo'r mater yma fel ag y mae Llywodraeth Ffrainc wedi gwneud drwy glustnodi llecynau ar eu cyfer sef 'Aires' gan eu bod yn dod ac arian i'r ardal ac y gellir rheoli'r arhosiad i un fyr dymor e.e. un noson yn unig ac felly nid yw yn mynd ac arian oddi ar y gwersylloedd eraill sy'n cynnig arhosiad hir dymor e.e. wythnos neu ddau. Mae'r Cadeirydd, Thomas Victor Jones a William Roger Jones yn cytuno hefo Greta Hughes.

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 28/06/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Penderfyniad: Cefnogi Cyngor Cymuned Pistyll ac ysgrifennu llythyr i Cyngor Gwynedd ac ychwanegu sylwadau Greta Hughes iddo hefyd.

Cynnig: William Penri Jones Eilio: Greta Hughes

### **Tybiau Blodau Llanbedrog**

Codwyd y mater yma gan William Roger Jones gan ei fod wedi sylwi ar y tybiau blodau sydd o amgylch y pentref mewn cyflwr difrifol iawn ac yn cynnig gofyn i rhywun blannu blodau ynddynt cyn gynted a bo'r modd. Dywedodd Greta Hughes bod ei chymydog yn plannu 'geraniums' yn y tybiau yma bob blwyddyn o'i phoced ei hun ac felly yn cytuno y dylid cael rhywun i wneud y gwaith.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Canolfan y Gwystl yn gofyn iddynt ddod i blannu blodau yn y tybiau a dweud wrthynt am adael y 'geraniums' yn y tybiau a peidio eu tynnu oddi yna. Y cadeirydd i yrru cynllun yn dangos lleoliad y potiau i'r clerc.

Cynnig: William Roger Jones Eilio: William Penri Jones

### **5. Ffurflen Flynyddol 2020-2021**

Cafodd bawb gopi o'r Ffurflen Flynyddol, Adroddiad Archwiliad Mewnol, y cysoniad banc â'r cyfrifon iddynt gael mynd drostynt cyn y pwyllgor. Mae'r Cadeirydd a'r Is-gadeirydd wedi gyrru ebost i'r clerc yn diolch iddi a'i llongyfarch hi am adroddiad mor dda ac fe ategodd Greta Hughes ei diolch hithau hefyd. Un eitem sydd wedi cael ei godi yn yr adroddiad yw nad oedd Pwyllgor Blynnyddol wedi cael ei gynnal cyn 31/12/2020 ond mae Pwyllgor Blynnyddol wedi cael ei gynnal eleni. Ategodd y clerc fod y pwyntiau gafodd eu codi yn adroddiad archwiliad 2019-2020 i gyd wedi cael eu lliniaru yn archwiliad 2020-2021.

Penderfyniad: Cymeradwywyd Ffurflen Flynyddol 2020-2021.

Cynnig: Ian Goronwy Williams Eilio: Andrew Parry

### **6. Ebost Cyngor Tref Nefyn – Creu Memorandwm o ddealltwriaeth ynglyn â Polisi Iaith**

Derbyniwyd ebost gan Cyngor Tref Nefyn yn gwahodd Cyngorau Cymuned/Tref i greu memorandwm o ddealltwriaeth ynglŷn â Polisi Iaith Cyngorau Cymuned/Tref yng Ngwynedd fel bod y Gymraeg yn cael ei gwarchod yn unol â Ddeddf Llesiant Cenedlaethau'r Dyfodol, cymal 6, Cymru a diwylliant bywiog lle mae'r Gymraeg yn ffynnu. Os bydd digon o Gynghorau Cymuned/Tref yn dangos diddordeb fe fydd cyfarfod yn cael ei drefnu.

Penderfyniad: y clerc i basio'r enwau canlynol ymlaen yn dweud bod ganddynt ddiddordeb mewn mynychu cyfarfod o'r fath: William Penri Jones, Ian Goronwy Williams, Alaw Ceris, William Roger Jones a Thomas Victor Jones.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** *Community Council*

**Cofnodion Cyfarfod 28/06/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19**

## **7. Llwybrau**

Mae'r Cadeirydd wedi cerdded rhai o'r llwybrau yn ddiweddar ac wedi sylwi fod golwg arnynt ac angen eu torri sef llwybr drwy'r nant, y ffynnon a'r llecyn o flaen yr ysgol. Mae William Penri Jones yn cytuno am y llwybr drwy'r nant gan ei fod wedi methu ei gerdded oherwydd y tyfiant, mae Thomas Victor Jones yn cytuno y dylai'r llecyn o flaen yr ysgol gael ei dorri'n amal i'w gadw'n daclus ac mae Alan Harper Smith yn cytuno eu bod wedi gor-dyfu ac yn amhosibl eu cerdded. Mynegodd Alaw Ceris bryder am y llecyn o flaen yr ysgol oherwydd nid yw'r rhieni yn cael mynd i fyny i'r ysgol i nôl y plant gyda sefyllfa covid-19 ac felly mae wir angen y llecyn yma i'r rhieni gael ymgynull yn saff gyda 2 fedr rhyngddynt i aros am plant.

Mae dau arwydd 'dim ysmegu' wedi cael eu rhoi yn y llecyn mwyniant ac un yn y llecyn o flaen yr eglwys. Diolchodd y cadeirydd am gefnogaeth y cynghowyr i'r Briodas Pum Mil ac mae o wedi cysylltu gyda'r cwmni teledu i ddweud fod pawb yn gefnogol ac mae'r clerc wedi cysylltu hefo Rhys i wneud yn saff fod y llecyn mwyniant yn cael ei dorri cyn y digwyddiad.

Penderfyniad: y cadeirydd i adael i'r clerc wybod rhifau'r llwybrau sydd wedi gor-dyfu a'r clerc i gysylltu hefo Pozzi i ddweud wrtho.

## **8. Y Fynwent**

Mynegodd y Cadeirydd fod y fynwent yn edrych yn dda iawn wedi cael ei thorri yn daclus.

Cafwyd diweddariad gan y clerc am gyfrif Nat West sef mae'r mandad wedi cael ei dderbyn ac mae'r 3 enw newydd yn cael arwyddo. Yr unig broblem yw nad oes modd ysgrifennu sieciau o'r cyfrif yma oherwydd ei fod yn gyfrif cynilo ac mae angen symudiadau allan ac i mewn o'r cyfrif er mwyn ei gadw yn agored felly mae angen penderfynnu sut i wneud hyn. Unai drwy agor cyfrif cyfredol yn Nat West i symund yr arian neu i 2 allan o'r 3 sydd ar y mandad newydd fynd i Nat West i dynnu arian allan a'i dalu i mewn i'r cyfrif cyfredol yn Lloyds. Mae Greta Hughes eisieu gwybod os oes yna gyfrif mwy addas ar gyfer yr arian yma sef cyfrif nad oes angen symudiad iddo ac yn fodlon i'r arian fod yn gorwedd ynddo am amser hir a creu cyfrif ar wahan i roi canran bach ohono ar gyfer cynnal a chadw'r fynwent.

Penderfyniad: y clerc i gysylltu hefo Nat West i drafod y cyfrif a cael mwy o wybodaeth.

Cafwyd diweddariad gan y clerc am weithredoedd y fynwent newydd ac mae Elin Tudur o swyddfa bryn Martin yn dweud fod ganddi ddogfennau i'w arwyddo yn ystod yr wythnosau nesaf ac mae hi am gysylltu hefo'r clerc i drefnu hynny.

## **9. Cae Chwarae**

Mae'r cadeirydd wedi bod yn trwshio'r ffens yn dilyn y cyfarfod diwethaf ond diwedodd William Roger Jones ei fod wedi cael ei dorri eto heddiw ac mae llwybr yn mynd reit at ochor y dibyn wrth Lôn Abersoch felly fe fydd rhaid ei thrwsio eto gan fod hyn yn berygl. Hefyd dywedodd William Roger Jones fod Cyngor Gwynedd wedi bod yn torri'r cael pel droed ac wedi gadael y gwair ar lawr heb ei godi ac mae'r llecyn sydd wrth ochor y fynedfa i'r cae chwarae angen ei dorri ac yn fler. Mae Stuart Livingstone wedi rhoi un arwydd 'dim ysmegu' i fyny yn y cae chwarae ac mae o am drwsio'r ffens yr wythnos nesaf ac fe fydd arwydd arall yn y fan honno unwaith y bydd y ffens wedi cael ei thrwsio.

**Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •**

**Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •**

# Cyngor Cymuned LLANBEDROG *Community Council*

## Cofnodion Cyfarfod 28/06/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

Mae'r cadeirydd wedi bod yn gweld y 'japanese knotweed' yn y cae chwarae ac mae'r clerc wedi anfon ebost i ofyn am gyngor i Cyngor Gwynedd ynglŷn â fo ond heb dderbyn ymateb eto.

Dywedodd Alan Harper Smith mae dau opsiwn sydd yna sef ei godi fyny neu rhoi 'roundup' arno ddwy neu dair gwaith y flwyddyn i'w ladd.

Penderfyniad: Mae William Roger Jones am edrych ar y ffens sydd wedi cael ei dorri eto fory pan fydd yn y cae chwarae yn cyfarfod yr archwilydd offer ac am adael i'r cadeirydd wybod er mwyn cael contractwr i'w drwsio ar frys.

Y clerc i gwyno i Cyngor Gwynedd am beidio torri'r llecyn wrth fynedfa y cae chwarae ac am beidio codi'r gwair yn y cae pel droed.

Y cadeirydd i gysylltu hefo Rhys i ofyn os fedrith o roi 'roundup' neu rhywbeth tebyg ar y 'japanese knotweed' i'w ladd.

Cafwyd diweddariad gan Alaw Ceris ar yr ymgyrch codi arian i'r cae chwarae gan ei bod ar y pwyllgor codi arian. Mis Ebrill oedd y cyfarfod diwethaf ac mae oddeutu £5000 wedi ei godi hyd yn hyn. Awgrymodd Alaw Ceris y dylsa nhw ganolbwyntio ar godi arian neu mynd am grant AHNE ar gyfer y ffens ochor Cae Hendy cyn cael unrhyw offer yna a dywedodd Thomas Victor Jones bod angen rhoi cais grant AHNE i fewn rwan. Un peth arall i feddwl amdano yw yr angen i gael llwybr o waelod y pentref at y cae chwarae fel bod mwy nac un mynediad iddo o bob rhan o'r pentref a'i wneud yn addas ar gyfer coets. Dywedodd Greta Hughes y cafwyd digwyddiad o ran diogelwch y plant yno ac felly ni thorwyd y llwybr wedyn ond mae hi yn derbyn y syniad yn llwyr.

Gan fod William Roger Jones yn mynd i gyfarfod Mr Allbright fory i archwilio offer y cae chwarae fe wnaeth Andrew Parry ei atgoffa fod angen archwilio y 'skate park' ar cwrt pel fasedd ac er ei fod yn fler mae teuluoedd yn dal i'w ddefnyddio felly efallai y bysai'n syniad i'w adnewyddu ychydig ar ôl yr archwiliad.

### **11. Coronavirus covid-19** – Diweddariad & Polisi Iechyd a Diogelwch

Cafwyd bwletin gan Un Llais Cymru am gyfarfodydd dan do a penderfynwyd oherwydd yr angen i greu asesiad risc a dilyn gofynion Llywodraeth Cymru sef hylendid dwylo, ymbellhau cymdeithasol, gorchuddion gwyneb a cofnodi manylion cyswllt y peth gorau fyddai i barhau ar zoom ym mis Gorffennaf a gan nad oes cyfarfod ym mis Awst efallai cynnal cyfarfod dan do ym mis Medi.

### **12. Neuadd y Pentref – Diweddariad**

Mae'r cadeirydd wedi gofyn i Stuart Livingstone drwsio'r hysbysfyddau o flaen y neuadd a dros y ffordd i Eisteddfa ond nid yw wedi cychwyn ar hyn eto.

Cafwyd diweddariad gan y clerc am y gweithredoedd, mae hi wedi siarad hefo Ieuan Ellis Owen ac mi fydd o yn dechrau gwneud rhestr o'r gweithredoedd sydd yn eu meddiant nhw yn yr wythnosau nesaf ac fe fydd y restr yn cynnwys dyddiadau meddiant a.y.y.b.

# Cyngor Cymuned **LLANBEDROG** Community Council

Cofnodion Cyfarfod 28/06/2021 7:00yh – O Bell - COVID-19

## Taliadau wedi eu Cymeradwyo

Cyflog y Clerc – Pat Humphreys	<b>£366.73</b>
HMRC – PAYE Month 1, 2 & 3	<b>£274.80</b>
Ann Llwyd – Cyfieithydd	<b>£170.00</b>
Victor Price - Gwaith cynnal y fynwent 2021	<b>£260.00</b>

## Taliadau wedi eu Derbyn

Ymddiriedolaeth Genedlaethol - **£1000.00**

Cyfraniad tuag at y toiledau  
cyhoeddus 2021-2022

Y clerch i ofyn i Victor Price os yw'n fodlon cario mlaen i wneud y gwaith yma.

## Ceisiadau Cynllunio

**C21/0558/38/DT** – Pen y Parc Glynyweddw – Estyniad to fflat unllawr i'r drychiad cefn, mân newidiadau drychiad i agoriadau ffenestri a drysau, ychwanegu toeau gwastad i greu adraloedd dan do.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

**Mae'r cadeirydd yn datgan diddordeb hefo'r cais yma ac felly yn gadael y cyfarfod.**

**C21/0570/38/DT** – Ty Capel Seion, Llanbedrog – Estyniad deulawr cefn gan gynnwys balcony.

**Penderfyniad:** Dim gwrthwynebiad.

## Gohebiaeth

1. **Clerks & Council Direct** – Newyddlen
2. **Un Llais Cymru** – Hyfforddiant
3. **CLILC** - 23.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan
4. **Llywodraeth Cymru** - Datganiad ysgrifenedig y Gweinidogion Cam 2 y rhaglen Amrywiaeth mewn Democratiaeth
5. **GIG** - AP Covid-19
6. **Llywodraeth Cymru** - Diweddariad - Cofio 2020
7. **Llywodraeth Cymru** - 30.09.2020 Diweddariad am y coronafeirws gan CLILC
8. **CLILC** - 02.10.2020 Diweddariad am y coronafeirws
9. **Panel Annibynnol Cymru** - Ymgynghoriad Adroddiad Blynyddol Drafft ar Gydnabyddiaeth Ariannol – Chwefror 2021
10. **Comisiynydd Pobl Hŷn Cymru** - Cylchlythyr Medi 2020
11. **Un Llais Cymru** - Hyfforddiant ar lein - Cymorth Cynllunio Cymru
12. **Un Llais Cymru** – Gwybodaeth am clyw
13. **Un Llais Cymru** - rhaglen gweminarau hyfforddiant 2020/21

## Cais am gyfraniad

1. **Macmillan Cancer Support** – cais am gyfraniad ariannol

Mynegodd yr Is-gadeirydd hefyd ei fod yn croesawu Alaw Ceris fel aelod o Cyngor Cymuned Llanbedrog a gobeithio y bydd hi'n mwynhau'r cyfarfodydd.

Is-gadeirydd yn cau'r cyfarfod am 8.20y.h

Clerc – Pat Humphreys - 07901704410 • [cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com](mailto:cyngorcymunedllanbedrog@gmail.com) •

Cadeirydd – John Brinley Jones • [jbjones@ppm-technology.com](mailto:jbjones@ppm-technology.com) • 07775577869 •